RHIF COFRESTREDIG: 07442837 (Cymru a Lloegr)

# Career Choices Dewis Gyrfa Cyf

## Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019



**CYNNWYS Y DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019**


| | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth am y Cwmni | 3 |
| Adroddiad Strategol | 4 |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 16 |
| Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol | 21 |
| Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr | 29 |
| Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol | 30 |
| Datganiad am Elw neu Golled | 33 |
| Datganiad am Elw neu Golled ac Incwm Cynhwysfawr Arall | 34 |
| Datganiad am y Sefyllfa Ariannol | 35 |
| Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti | 37 |
| Datganiad Llif Arian | 38 |
| Nodiadau ynglŷn â'r Datganiad am Lif Arian | 39 |
| Nodiadau ynglŷn â'r Datganiadau Ariannol | 40 |

## GWYBODAETH AM Y CWMNI

**CYFARWYDDWYR:**

Mr I Prys-Jones
Mrs E Richards
Mr R A Wright
Miss K Luckock
Mr R C Francis
Miss S Jones
Dr D Evans-Williams
Mr D A Dowling
Mrs L A Teichner
Yr Athro S Maguire
Miss E Harris
Mr K G Bowd
Mrs N J Lawrence

**YSGRIFENNYDD:** Mr W Piper

**SWYDDFA GOFRESTREDIG:**

53 Heol Siarl
Caerdydd
CFIO 2GD

**RHIF COFRESTREDIG:** 07442837 (Cymru a Lloegr)

**ARCHWILWYR:** Archwilydd Cyffredinol Cymru

## ADRODDIAD STRATEGOL

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad strategol am y cwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

### CEFNDIR STATUDOL

Is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru yw Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG) a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Mae CCDG yn masnachu o dan yr enw *Gyrfa Cymru Careers Wales* ac mae'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd annibynnol a diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru. Yn y flwyddyn ariannol hon, bu CCDG yn canolbwyntio ar barhau i weithredu gweledigaeth y cwmni, "Newid Bywydau" sy'n cynnwys presenoldeb digidol integredig (GyrfaCymru.com) a gwasanaeth ffôn sy'n gysylltiedig â gweledigaeth Llywodraeth Cymru, sef creu Cenedl wirioneddol Ddigidol yn ein model darparu gwasanaethau.

Mae CCDG yn cyflawni cylch gorchwyl a bennir gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ac yn cefnogi amcanion strategol Llywodraeth Cymru fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a pholisïau cysylltiedig Llywodraeth Cymru. Bydd gwaith CCDG yn helpu i ddatblygu sylfaen sgiliau'r genedl a bydd yn gefn i effeithiolrwydd gwariant ar addysg a hyfforddiant, gan gyfrannu drwy hynny at les economaidd a chymdeithasol Cymru.

### PRIF AMCANION

Penderfyniadau ynglŷn â gyrfa yw rhai o'r penderfyniadau pwysicaf y bydd pobl yn eu gwneud yn ystod eu hoes a gall gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd helpu i wneud y canlynol:

- Gwella gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu a'r farchnad lafur;
- Gwella hunanymwybyddiaeth, codi dyheadau unigol a chefnogi pobl i wneud penderfyniadau effeithiol am eu gyrfaoedd;
- Cynyddu'r mynediad at addysg a hyfforddiant, a'r cyfraddau cwblhau;
- Ysgogi pobl i reoli eu gyrfaoedd, gwella sgiliau cyflwyno ceisiadau a sgiliau cyfweliad a bod yn gydnerth wrth addasu eu cynlluniau pan fydd amgylchiadau'n newid;
- Mynd i'r afael â diffyg cydraddoldeb drwy ganolbwyntio ar anghenion grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol ym maes cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant a thrwy herio stereoteipio; a
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y farchnad lafur, er enghraifft drwy wella'r gyfatebiaeth rhwng y sgiliau sydd ar gael a'r galw amdanynt.

### SWYDDOGAETHAU CRAIDD

Swyddogaeth graidd CCDG yw sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd a chymorth cysylltiedig drwy gyfweliadau cyfarwyddyd un-i-un, gwaith grŵp, mynediad i'r we a gwasanaeth/llinell gymorth ddwyieithog dros y ffôn. Rydym yn helpu cleientiaid i ddod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd, gan gydnabod nad dewis galwedigaethol unwaith ac am byth bellach yw rheoli gyrfa, ond yn hytrach y bydd pobl yn aml yn newid gyrfa sawl gwaith yn ystod eu hoes. Drwy wella sgiliau a chymwyseddau rheoli gyrfa, gall cleientiaid ymdrin yn haws â'r newidiadau hyn, cael mwy o foddhad yn eu gyrfa a chwarae rhan fwy gweithredol yn yr economi.

Caiff swyddogaethau craidd CCDG eu diffinio yn y llythyr cylch gwaith gan Lywodraeth Cymru sy’n manylu ar amcanion CCDG. Yn 2018-19 canolbwyntiodd y llythyr cylch gwaith ar y meysydd canlynol:

- Parhau i lywio’r blaenoriaethau a bennwyd yng ngweledigaeth "Newid Bywydau" gan gynnwys y cynnig newydd i bobl ifanc mewn addysg. Cefnogi pobl ifanc 11-18 oed mewn ysgolion, colegau neu raglenni dysgu seiliedig ar waith, i feithrin eu dealltwriaeth o gymwyseddau rheoli gyrfaoedd a sgiliau cyflogadwyedd; bod yn ymwybodol o adnoddau Gyrfa Cymru a chael gafael arnynt; trwy feithrin eu dealltwriaeth o’r farchnad lafur a gwybodaeth am y farchnad lafur (LMI); a bod yn ymwybodol o’r holl gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant ôl-16 a sut i fanteisio arnyn nhw.
- Sicrhau bod oedolion ifanc mewn addysg neu hyfforddiant yn gallu: gwneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol a’r camau nesaf; rhoi cymwyseddau rheoli gyrfa a sgiliau cyflogadwyedd ar waith; cynnal eu cysylltiad â byd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant; a gwneud penderfyniadau realistig am eu dewisiadau gyrfa a dysgu yn y dyfodol.

## Addysg




- Cymorth Strategol i’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Nod y fframwaith hwn yw lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET). Bydd CCDG yn nodi’r rhai sy’n wynebu’r perygl mwyaf o ddod yn NEET neu sy’n NEET eisoes ac yn darparu’r cymorth sydd ei angen arnynt i’w rhoi yn ôl ar y trywydd iawn.

- Gwasanaethau i Oedolion - bydd CCDG yn darparu gwasanaethau dros y ffôn ac ar y we sydd ar gael i oedolion ac yn berthnasol iddynt.




- Gwasanaethau Digidol – Bydd CCDG yn parhau i fwrw ymlaen â phroses trawsnewid digidol gan osod cerrig milltir clir ar gyfer darparu'r platfform digidol newydd a'r seilwaith cysylltiedig.

- Sefydliadau Addysg Bellach — bydd CCDG yn cynnig atebion digidol yn gyntaf i ddysgwyr ôl-16.

- Ymgysylltu â busnes — bydd CCDG yn hwyluso ac yn cefnogi amrywiaeth o weithgareddau gwaith.

Mae CCDG hefyd yn cael cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru tuag at nifer o brosiectau strategol.

<u>Prosiectau strategol</u>


1 . Y Porth Sgiliau Unigol - Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i unigolion di-waith 18 oed a throsodd gael cymorth a chefnogaeth broffesiynol gan Gynghorwyr Gyrfa i'w helpu i wireddu eu nodau o ran gyrfa a goresgyn rhwystrau gwaith. Mae CCDG yn helpu unigolion i ddod o hyd i hyfforddiant a chyrsiau sy'n addas i'w hanghenion.

**Cyfweliadau wyneb yn wyneb**




2. Gwasanaeth Paru Prentisiaethau - Mae CCDG yn darparu proses recriwtio ar-lein am ddim i helpu cyflogwyr i ddod o hyd i brentisiaid addas a helpu darpar brentisiaid i ddod o hyd i gyfleoedd busnes sy'n addas iddyn nhw. Mae'r holl raglenni prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar gael trwy gyrfacymru.llyw.cymru.

3. Twf Swyddi Cymru - Mae'r prosiect hwn yn rhoi cyfle i bobl ddi-waith 18-24 oed sy'n byw yng Nghymru i gael profiad gwaith am hyd at chwe mis mewn swydd sy'n talu'r isafswm cyflog o leiaf. Mae rhestr swyddi gwag Twf Swyddi Cymru ar gael ar gyrfacymru.llyw.cymru




4. ReAct - gwasanaethau a chymorth i bobl sydd wedi colli eu gwaith neu sy'n wynebu'r bygythiad o golli eu gwaith. Mae cymorth ar gael i ymgeiswyr cymwys wella'u sgiliau a chwalu'r rhwystrau rhag dysgu, neu ddychwelyd i'r gwaith. Bydd Gyrfa Cymru'n asesu anghenion hyfforddi pob ymgeisydd ac yna'n cynnig cyngor am gyrsiau hyfforddi a lleoliadau hyfforddi addas.

ReAct





Prosiectau a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop

Cafodd CCDG gyllid ar gyfer chwe phrosiect Ewropeaidd (Sbardun) i gefnogi pobl ifanc 11-19 oed sy'n ymddieithrio o addysg ac mewn perygl o ddod yn NEET. Nod y prosiectau yw lleihau'r nifer sy'n gadael yr ysgol a'r coleg yn gynnar a rhwystro hynny drwy gynnig rhagor o opsiynau i oedolion ifanc fanteisio ar addysg a hyfforddiant. Bydd y prosiectau yn:

- Sicrhau bod y bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf yn cael eu hadnabod a'u cefnogi fel eu bod yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant a bod eu risg yn lleihau. Bydd hyn yn lleihau'r tebygrwydd o dlodi yn y dyfodol neu dlodi parhaus ymhlith pobl ifanc.
- Sicrhau iechyd a lles gwell i bobl ifanc.
- Magu'r awydd i weithio a meithrin dyheadau uwch ar gyfer pobl ifanc.

Sbardun



Ein Heffaith

Mae CCDG yn cydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau er mwyn cyfrannu at y canlyniadau canlynol i bobl yng Nghymru, sy'n cefnogi ein cenhadaeth o ysbrydoli unigolion er mwyn creu economi fedrus:

1. Ymwybyddiaeth: Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth well am Wybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) a'r cyfleoedd dysgu, hyfforddi a chyflogaeth sydd ar gael iddynt. Ymwybyddiaeth o'u cryfderau, eu sgiliau a'u galluoedd nhw eu hunain, lle gallan nhw wella a phwy sy'n gallu eu helpu
2. Dyhead: Mwy o uchelgais a chymhelliant i gymryd rhan mewn gwaith, addysg a hyfforddiant;
3. Gallu: Gwella'r gallu i ddefnyddio sgiliau a chymwyseddau'n effeithiol er mwyn gwneud penderfyniadau, gwneud pobl yn fwy cydnerth i allu addasu a newid er mwyn ymdopi ag amgylchiadau newydd; a
4. Gweithredu: Gwella hyder a sgiliau a chryfhau gallu pobl i ddefnyddio'u cysylltiadau'n effeithiol, i roi cynlluniau ar waith, i ymgeisio'n llwyddiannus am swyddi cynaliadwy, a chyfleoedd dysgu a hyfforddi.

**PERFFORMIAD Y CWMNI 2018-19**

Caiff perfformiad y cwmni'n ei asesu'n fewnol ac yn allanol o ran targedau busnes, safonau ansawdd ac iechyd ariannol.

Cytunodd Llywodraeth Cymru y byddai Cynllun Busnes CCDG ar gyfer 2018-19 yn parhau â set o ddangosyddion perfformiad ac y byddai Llywodraeth Cymru yn monitro dylanwad y sefydliad yn eu herbyn. Dyma'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2018-19:

1. Bod o leiaf 75% o gleientiaid oedran ysgol yn dweud bod ganddyn nhw ddealltwriaeth well o Wybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) ar ôl mynychu sesiwn LMI Gyrfa Cymru;
2. Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i Haen 3 fel eu cyrchfan gyntaf wrth adael yr ysgol;
3. Bod 70% o bobl ifanc 16-17 oed sy'n gadael Haen 3 yn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (EET);
4. Bod 70% o gleientiaid blwyddyn 11 yn dweud bod ganddyn nhw fwy o gymhelliant, hyder a chadernid.
5. Bod o leiaf 75% o gleientiaid oedran ysgol a fynychodd ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd wedi'i drefnu gan Gyrfa Cymru yn dweud bod ganddyn nhw ddealltwriaeth well o'u holl lwybrau posib;
6. Mewn arolwg o bob ysgol uwchradd, bod 70% yn rhoi gradd bodlonrwydd cwsmeriaid 'da' neu 'well' i rôl y swyddog cyfrif;

7. Bod 70% o ysgolion uwchradd yn rhoi sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid o dda neu well i'n rôl o helpu i feithrin partneriaeth gryfach, fwy effeithiol rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr er mwyn helpu i baratoi pobl ifanc at fyd gwaith.

**Llwyddiannau**

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 1: Bod o leiaf 75% o gleientiaid oedran ysgol yn dweud bod ganddyn nhw ddealltwriaeth well o LMI ar ôl mynychu sesiwn LMI Gyrfa Cymru.**

Llwyddodd CCDG i fodloni gofynion dangosydd perfformiad allweddol 1. Mewn sampl o ddisgyblion blwyddyn 10 a fynychodd ddigwyddiad ar Ddyfodol Byd Gwaith yng Nghymru gan Gyrfa Cymru, dywedodd 86% o ymatebwyr holiadur gwerthuso fod y sesiwn LMI wedi eu helpu i ddeall mwy am y farchnad lafur. Roedd hyn yn well na'r targed gofynnol o 75%.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 2: Gostyngiad yn nifer y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i Haen 3 fel eu cyrchfan gyntaf wrth adael yr ysgol.**

Llwyddodd CCDG i fodloni gofynion dangosydd perfformiad allweddol 2.

Yn 2017, roedd 924 o bobl ifanc yn mynd i mewn i Haen 3 fel eu cyrchfan gyntaf wrth adael yr ysgol.

Yn 2018, roedd 303 o bobl ifanc yn mynd i mewn i Haen 3 fel eu cyrchfan gyntaf wrth adael yr ysgol.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 3: Bod 70% o bobl ifanc 16-17 oed sy'n gadael Haen 3 yn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (EET).**

Llwyddodd CCDG i gyflawni 64% yn erbyn dangosydd perfformiad allweddol 3. Gyrfa Cymru sy'n llywio'r gwaith o weithio gyda phobl ifanc 16 ac 17 oed sydd wedi gadael yr ysgol ac sy'n ddi-waith ac wrthi'n chwilio am waith, hyfforddiant neu ddychwelyd i addysg (NEET, Haen 3). Ein rôl ni yw helpu'r bobl ifanc hyn i ddychwelyd i fyd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (EET, Haen 4 a 5).

Cafodd 21.13% o ymadawyr Haen 3 eu hatgyfeirio at gymorth Haen 2 (rhai nad ydynt yn gallu cael mynediad at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant oherwydd rhwystrau gwahanol). Roedd yr atgyfeiriad hwn yn fwy addas i'r bobl ifanc hyn na pharhau yn Haen 3 neu symud ymlaen i Haen 4 a 5, er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n eu hatal rhag mynd i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant. Ar ôl mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny dylai'r person ifanc fod mewn sefyllfa well i gael mynediad i EET. Dyma'r prif reswm pam nad oedd y ganran gyflawni yn uwch na 64%.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 4: Bod 70% o gleientiaid blwyddyn 11 yn dweud bod ganddyn nhw fwy o gymhelliant, hyder a chadernid.**

Llwyddodd CCDG i gyflawni dangosydd perfformiad allweddol 4. Mae Gyrfa Cymru yn darparu gwasanaethau cyfarwyddyd i bobl ifanc mewn addysg i'w helpu i ddatblygu eu sgiliau rheoli gyrfa er mwyn eu cefnogi i bontio'n llwyddiannus i'w cam nesaf ar ôl blwyddyn 11. Nod y dangosydd perfformiad allweddol yw canfod a oes gan gleientiaid

fwy o gymhelliant, hyder a chadernid i allu cymryd rhan yn llwyddiannus ym myd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

Gofynnwyd i sampl o ddisgyblion blwyddyn 11 a dderbyniodd wasanaethau gan Gyrfa Cymru, a oedd hynny wedi gwella eu cymhelliant a'u hyder:

*"mae'r gwasanaeth a gefais gan Gyrfa Cymru wedi gwella fy hyder a'm cymhelliant (dw i'n hapus gyda fy newisiadau a dw i'n deall beth sydd angen i mi ei wneud er mwyn cyflawni fy nodau gyrfaol)."*

Ymatebodd 77.5% yn gadarnhaol i'r cwestiwn hwn, felly mae'r dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cymhelliant a hyder wedi'i fodloni.

Er mwyn mesur a oes cynnydd yng nghadernid disgyblion, holwyd y cwestiwn canlynol i'r sampl:

*"Os na fydd eich cynlluniau ar ôl blwyddyn 11 yn llwyddo, sut ydych chi'n teimlo ynglŷn â chael cymorth i ddychwelyd ar y trywydd iawn?"*

Fe wnaeth 83% o'r sampl ymateb yn gadarnhaol i'r cwestiwn, sy'n profi bod Gyrfa Cymru wedi cyflawni'r maen prawf ar gyfer dangosydd perfformiad allweddol 4.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 5: Bod o leiaf 75% o gleientiaid oedran ysgol a fynychodd ddigwyddiad codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd wedi'i drefnu gan Gyrfa Cymru yn dweud bod ganddyn nhw ddealltwriaeth well o'u holl lwybrau posib.**

Llwyddodd CCDG i gyflawni'r maen prawf ar gyfer dangosydd perfformiad allweddol 5. Mewn sampl o ddisgyblion blwyddyn 11 a oedd yn mynychu digwyddiad grŵp gyda ffocws ar Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd – Parch Cydradd (*Opportunity Awareness – Parity of Esteem*) a drefnwyd gan Gyrfa Cymru, dywedodd 87% o ymatebwyr yr holiadur gwerthuso fod y sesiwn wedi eu helpu i ddeall mwy am brentisiaethau, pwy sy'n gallu gwneud cais a lle i wneud cais.

Hefyd, mae Gyrfa Cymru yn cynnig digwyddiadau amlwg i ysgolion er mwyn helpu i baratoi pobl ifanc at fyd gwaith. Gofynnwyd i'r disgyblion a gymerodd ran yn y gweithgareddau lenwi holiadur gwerthuso, ac ymatebodd 96.6% yn gadarnhaol i'r cwestiwn:

*"I ba raddau mae'r digwyddiad hwn wedi gwella eich gwybodaeth am gyfleoedd sydd ar gael yn lleol a ledled Cymru?"*

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 6: Mewn arolwg o'r holl ysgolion uwchradd, bod 70% yn rhoi gradd bodlonrwydd cwsmeriaid 'da' neu 'well' i rôl y Swyddog Cyfrif.**

Llwyddodd CCDG i fodloni'r maen prawf ar gyfer dangosydd perfformiad allweddol 6. Mae Gyrfa Cymru yn defnyddio'r ystod eang o arbenigedd sydd ar gael o fewn gwahanol dimau cyflwyno i gynnig gwasanaethau i ysgolion. Mae Cynghorwyr Gyrfaoedd, yn rôl y Swyddogion Cyfrif, yn ganolog i'r gwaith o gydlynu'r gwasanaethau hynny'n effeithiol.

Gwahoddwyd pob ysgol uwchradd i gwblhau arolwg a gynlluniwyd i weld pa mor effeithiol yw rôl y Swyddog Cyfrif.

Fe wnaeth 98.4% o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd roi sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid 'da' neu well i'r rôl.

**Dangosydd Perfformiad Allweddol 7: Bod 70% o ysgolion uwchradd yn rhoi sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid o 'dda' neu well i'n rôl o helpu i feithrin partneriaeth gryfach, fwy effeithiol rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr er mwyn helpu i baratoi pobl ifanc at fyd gwaith.**

Llwyddodd CCDG i fodloni'r maen prawf ar gyfer dangosydd perfformiad allweddol 7. Mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda rhwydwaith eang o bartneriaid er mwyn helpu ein cwsmeriaid i sicrhau canlyniadau llwyddiannus. Cynlluniwyd yr arolwg i bennu effeithiolrwydd ein rôl wrth greu a datblygu partneriaethau cryfach gydag ysgolion uwchradd a chyflogwyr.

Gwahoddwyd pob ysgol uwchradd i gwblhau arolwg a gynlluniwyd i weld pa mor effeithiol yw'r broses o weithio mewn partneriaeth.

Fe wnaeth 81% o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd, roi sgôr bodlonrwydd cwsmeriaid o 'dda' neu well i'n rôl o helpu i feithrin partneriaeth gryfach, fwy effeithiol rhwng ysgolion uwchradd a chyflogwyr i helpu i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith.

## PERFFORMIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN

Dangosir canlyniadau'r flwyddyn ariannol ar dudalen 25 ymlaen.

Ar hyn o bryd, mae Datganiadau Ariannol CCDG yn dangos bod diffyg o £33.3 miliwn yng nghronfeydd wrth gefn y cwmni. Y prif reswm dros hyn yw'r diffyg net o ran pensiynau sef £39.4 miliwn. Amcangyfrif yw'r diffyg hwn o'r prinder asedau disgwyliedig o'i gymharu â'r rhwymedigaethau yng nghronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol CCDG.

Caiff perfformiad CCDG ei asesu'n fewnol ac yn allanol, yn benodol drwy ei Lythyr Cylch Gwaith a'r Ddogfen Fframwaith y cytunir arnynt bob blwyddyn â Llywodraeth Cymru. Bydd ein perfformiad ar sail y Llythyr Cylch Gwaith yn cael ei fonitro gan Lywodraeth Cymru ac mae CCDG yn darparu adroddiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru i'w helpu gyda'r broses fonitro hon.

Mae'r Ddogfen Fframwaith yn caniatáu i CCDG drosglwyddo hyd at 3% o gyllid incwm craidd y cytunwyd arni â Llywodraeth Cymru o falansau arian parod sydd wedi'u codi ond heb eu gwario o'r naill flwyddyn ariannol i'r nesaf (yn unol â'r llythyr cylch gwaith a heb gynnwys incwm y tybir ei fod yn gronfeydd preifat). Mae'r tabl yma'n dangos y sefyllfa ar gyfer 2018-19:

| Eitem | £m |
|---|---|
| Cyllid incwm craidd fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru | 18.9 |
| Canran y caniateir ei throsglwyddo - 3% | 0.6 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 0.5 |

Llywodraeth Cymru yw prif ffynhonnell incwm CCDG ac yn ystod y flwyddyn, cyfanswm yr incwm gan Lywodraeth Cymru oedd £24.7m. Yn dilyn ymweliad gan arolygwyr TAW Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, penderfynwyd dosbarthu'r holl incwm a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru fel incwm grant. Yn sgil hyn, fe wnaeth CThEM ad-dalu'r TAW a dalwyd gennym yn ystod y flwyddyn (£1,834k). Fe wnaethom gyflwyno nodyn credyd i Lywodraeth Cymru am y TAW a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn (£2,609k). Amcangyfrifwyd y byddai colli statws TAW yn cael effaith negyddol ar lif arian o tua £1m. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyfrannu £750k i leihau'r golled hon.

## DATBLYGIADAU'R DYFODOL

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae CCDG wedi dechrau gweithredu'r ail flwyddyn o weledigaeth strategol newydd tair blynedd o'r enw "Newid Bywydau". Rydym wedi parhau i ddatblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd y mae cleientiaid a phartneriaid yn rhoi gwerth arnynt, wedi gwella sgiliau ein staff proffesiynol ac wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd.

Bydd y cwmni nawr yn symud i flwyddyn olaf ei weledigaeth strategol tair blynedd. Mae hyn yn parhau â'r gred y gall CCDG ychwanegu'r gwerth mwyaf i gleientiaid Llywodraeth Cymru drwy sicrhau bod ein hadnoddau'n canolbwyntio mwy ar bobl ifanc - i'w helpu drwy'r pwyntiau pontio pwysig hyd at 19 oed. Bydd CCDG yn canolbwyntio ein hadnoddau ar ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4, oherwydd dyma'r cyfnod pan fydd pobl ifanc yn wynebu'r ystod ehangaf o ddewisiadau ar gyfer eu dyfodol, a'r adeg pan maen nhw angen ein cymorth fwyaf.

Yn ystod 2018-19, roedd gwaith CCDG gydag oedolion wedi'i gyfyngu'n bennaf i gontractau nad ydynt yn rhai craidd gyda Llywodraeth Cymru i gynnal y Porth Sgiliau i Oedolion (ar gyfer oedolion di-waith) a rhaglenni ReAct a Mynediad (ar gyfer pobl wedi'u diswyddo). Hefyd, dechreuodd CCDG gyflwyno contract Cymru'n Gweithio o 1 Chwefror — 31 Mawrth 2019. Y flwyddyn nesaf, byddwn yn cyflwyno blwyddyn lawn gyntaf rhaglen 'Cymru'n Gweithio' Llywodraeth Cymru. Byddwn yn datblygu llwyddiannau profedig ein gwasanaeth presennol drwy ddarparu cymorth integredig i oedolion sy'n cyfuno asesu sgiliau, hyfforddiant a chanllawiau gyrfaol. Cymru'n Gweithio fydd rhaglen newydd cymorth i oedolion Gyrfa Cymru, a bydd yn galluogi'r cwmni i weithio gyda'r holl gwsmeriaid sydd angen arweiniad. Yn ystod 2019-20, byddwn hefyd yn parhau i gefnogi rhaglenni etifeddol fel ReAct, Mynediad a Twf Swyddi Cymru hyd nes y cânt eu disodli gan 'Cymorth Gwaith Cymru', rhaglen gyflogadwyedd newydd Llywodraeth Cymru, ym

mis Ebrill 2020. Bydd CCDG yn bwrw ymlaen â'i agenda digidoleiddio ac yn canolbwyntio ar ailddatblygu gwefan y cwmni dros y ddwy flynedd nesaf.

Mae Cynllun Busnes CCDG ar gyfer 2019-20 yn disgwyl i incwm Llywodraeth Cymru fod gwerth £29m. Fel y dengys y tabl isod, mae hyn yn cynnwys arian ar gyfer prosiectau penodedig gwerth £10.1 m.

| Ffynhonnell gyllido | £m |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru — Craidd | 18.9 |
| Llywodraeth Cymru — Cymru'n Gweithio | 9.2 |
| Llywodraeth Cymru — Cyfraniad TAW | 0.75 |
| Llywodraeth Cymru – Prosiectau | 0.15 |
| **Is-gyfanswm Llywodraeth Cymru** | **29.0** |
| Arian Ewropeaidd - Cronfa Gymdeithasol Ewrop | 1 .8 |
| Incwm contract Arall | 0.3 |
| **Amcangyfrif o gyfanswm yr incwm 2019-20** | **31.1** |

**PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD**

Rhoddir manylion rheoli risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol Blynyddol ar dudalennau 20-21.

Dyma'r prif risgiau sy'n wynebu CCDG:
- Rheoli llif arian,
- Gweithredu'r uchelgais trawsnewid,
- Gweithredu gwefan newydd gyrfacymru.llyw.cymru.

Ymhelaethir ar y risgiau hyn isod:

| Maes risg | Prif risgiau |
|---|---|
| **Risgiau Gweithredol a Strategol** | • Methu â pharhau i reoli'n effeithiol y model gweithredol a ffefrir fel y nodir yng ngweledigaeth Newid Bywydau |
| **Risgiau Ariannol** | • Rheoli'r llif arian oherwydd gostyngiad yn yr arian sydd ar gael. |
| **Risgiau Gwybodaeth/Digidol** | • Sicrhau rôl lwyddiannus y wefan newydd a'i datblygiad.<br>• Cyflwyno a darparu adnoddau ar gyfer trawsnewid digidol. |

**ON BEHALF OF THE BOARD:**

.......................................................................
**Mr I Prys-Jones - Director**

**AR RAN Y BWRDD:**

.......................................................................
**Mr I Prys-Jones - Cyfarwyddwr**

Dyddiad: 12 September

# ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cyflwyno'u hadroddiad ynghyd â Datganiadau Ariannol y cwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Mae CCDG wedi mabwysiadu'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Gweinidogion Cymru yw unig aelod CCDG. Mae'r cwmni'n gyfyngedig drwy warant ac mae pob Cyfarwyddwr yn cytuno i dalu'r swm o £1 os digwydd i'r cwmni gael ei ddirwyn i ben.

## DIFIDENDAU

Ni thelir unrhyw ddifidend ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019.

## DIGWYDDIADAU ERS DIWEDD Y FLWYDDYN

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau ers diwedd y flwyddyn yn nodyn 18 y Datganiadau Ariannol.

## CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr a restrir isod wedi bod yn eu swyddi yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019:

Mr I Prys-Jones
Mrs E Richards
Mr R A Wright
Mr R C Francis
Miss S Jones
Dr D Evans-Williams (Cadeirydd)
Mr K G Bowd
Yr Athro S Maguire
Mr D A Dowling
Mrs L A Teichner
Miss E Harris
Miss K Luckock
Mrs N J Lawrence

Dyma'r newidiadau o ran y Cyfarwyddwyr a oedd yn dal swyddi:
Mr K G Bowd - ymddiswyddodd 31 Mai 2018
Miss Luckock - ymddiswyddodd 30 Mehefin 2018
Mrs N J Lawrence - penodwyd 1 Mehefin 2018

Penodwyd Mrs N J Lawrence yn Brif Weithredwr dros dro ar 1 Mehefin 2018 yn dilyn ymddiswyddiad Mr K G Bowd ar 31 Mai 2018. Mae'r holl Gyfarwyddwyr, heblaw am Mr K G Bowd a Mrs N J Lawrence, yn gyfarwyddwyr anweithredol a di-dâl. Yn ogystal â bod yn Gyfarwyddwyr CCDG, mae Mr K G Bowd a Mrs N J Lawrence hefyd yn gweithio i CCDG. Telir £345 y diwrnod i'r Cadeirydd am fod yn bresennol mewn cyfarfodydd neu am gyflawni gweithgareddau eraill y cytunwyd sy'n berthnasol i waith Gyrfa Cymru, am

hyd at 80 diwrnod y flwyddyn Mae Cadeiryddion y pwyllgorau hefyd yn cael tâl cydnabyddiaeth ar gyfradd ddyddiol o £256 y pwyllgor.

## BUSNES A DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Wrth fabwysiadu'r sail busnes byw ar gyfer paratoi'r Datganiadau Ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried y gweithgareddau busnes, yn ogystal â phrif risgiau ac ansicrwydd y cwmni fel y'u rhestrir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

Ar ôl trosglwyddo perchnogaeth i Lywodraeth Cymru, ar 1 Ebrill 2013, daeth CCDG yn gorff cyhoeddus, sy'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Drwy lythyr cylch gwaith CCDG, mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi cael cadarnhad y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu cymorth refeniw a chyfalaf ar lefel sy'n ddigonol i alluogi CCDG i barhau'n fusnes byw tan 31 Mawrth 2020 o leiaf. Ar ôl gwneud ymholiadau ac adolygu rhagolygon y cwmni, casgliad y Cyfarwyddwyr yw nad oes dim ansicrwydd perthnasol a fyddai'n creu unrhyw amheuon ynghylch gallu CCDG i barhau mewn busnes dros y 12 mis nesaf. Felly, bydd y Bwrdd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes byw wrth baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

## ASEDAU ANGHYFREDOL

Dangosir manylion yr asedau anghyfredol yn nodiadau 8 a 9 y datganiadau ariannol.

## AMCANION A PHOLISÏAU RHEOLI RISGIAU ARIANNOL

Mae prif risgiau ariannol CCDG yn ymwneud â rheoli llif arian a chyllidebu. Cyllideb graidd Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 oedd £18.9 miliwn, a chafwyd cadarnhad mai £18.9m fydd lefel y cyllid craidd ar gyfer 2019-20.

O ran rheoli llif arian, nid oes risg sylweddol i gredyd ac mae gan CCDG falans arian parod iach ar adnau tymor byr. Ar ddiwedd y cyfnod 2018-19 mae gan CCDG falans arian parod positif o £477k felly ni thybir bod credyd, hylifedd a llif arian yn risg berthnasol.

## STAFF

### Polisi pobl anabl

Mae gan CCDG Bolisi Cyfle Cyfartal sy'n dangos ein hymrwymiad brwd i gyfle cyfartal ym maes recriwtio a dethol, hyfforddi a datblygu, adolygu perfformiad a dyrchafu ac ymddeol. Bydd CCDG yn hybu amgylchedd lle nad oes gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu nac erlid, amgylchedd lle y caiff pawb ei drin yn gyfartal beth bynnag fo'i ryw, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd. Bydd pobl ag anableddau'n cael eu hystyried yn llawn ac yn deg ar gyfer pob swydd wag. Mae CCDG wedi ymrwymo i gyfweld â'r bobl hynny ag anableddau sy'n cyflawni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer swyddi, ac yn ymdrechu i gadw gweithwyr yn y gweithlu os byddant yn mynd yn anabl yn ystod eu swydd. Bydd CCDG yn mynd ati'n frwd i ailhyfforddi ac addasu'r amgylchedd lle bo modd er mwyn i weithwyr anabl allu cyflawni o'u gorau.

### Ymgynghori â'r gweithwyr

Mae CCDG yn dal i ymrwymo i sicrhau bod gweithwyr yn cymryd rhan yn ei weithgareddau ac mae ganddo gytundeb cydnabyddiaeth ag Unsain. Fe wnaeth y rheolwyr ac Unsain gymryd rhan ragweithiol â hyfforddiant Partnership a hyrwyddwyd gan Gyngres Undebau Llafur Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r naill ochr a'r llall wedi mynd ati i sicrhau a choleddu gwaith partneriaeth ac mae hyn wedi gwella cysylltiadau diwydiannol ac arwain at gydweithio adeiladol. Bydd gweithwyr yn cael gwybod am

berfformiad a strategaeth y cwmni drwy gynnal sesiynau briffio personol, cyfarfodydd rheolaidd, negeseuon e-bost a diweddariadau gan y Prif Weithredwr yn ein cylchlythyr LINC a anfonir at bob aelod o'r staff.

Mae gweithwyr yn gallu cysylltu â'i gilydd, postio gwybodaeth am glybiau a grwpiau yn eu hardal ac maent yn gallu cael gafael ar wybodaeth am ddigwyddiadau corfforaethol drwy ddefnyddio mewnrwyd CCDG.

### Polisi talu Credydwyr

Mae CCDG wedi ymrwymo i dalu anfonebau a hawliadau eraill am daliad yn ddi-oed. Pan fydd nwyddau a gwasanaethau wedi'u cyflenwi'n foddhaol, nod y cwmni yw talu o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb.

## ADRODDIAD AMGYLCHEDDOL

Mae CCDG yn sylweddoli bod ei ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau'n dylanwadu er gwell ac er gwaeth ar yr amgylchedd, ac mae'n awyddus i reoli a lliniaru hyn lle bo modd. Mae deddfwriaeth a pholisïau Llywodraeth Cymru yn sail i'n strategaeth amgylcheddol. Er mwyn ein helpu i gyrraedd y nod, rydym wedi rhoi Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd ar waith, safon sy'n cael ei harchwilio'n annibynnol. Mae'r prif egwyddorion i'w gweld yn ein polisi amgylcheddol a bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith a'u monitro drwy ddefnyddio system reoli amgylcheddol.

### Sut y byddwn yn rheoli'r broses


Nod CCDG yw ceisio sicrhau bod ein proses o reoli ein heffaith amgylcheddol yn gwella'n barhaus. Rydym wedi sefydlu dau bwyllgor sy'n goruchwylio gofynion monitro ac adrodd ein strwythur llywodraethu. Mae'r Tîm Gwyrdd yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o archwilio a chynhyrchu'r data monitro ac yn adrodd yn uniongyrchol i'r Uwch Dîm Rheoli. Mae Pwyllgor Lles Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y maes amgylcheddol a bioamrywiaeth hefyd.

### Perfformiad amgylcheddol

Yn ystod y flwyddyn ariannol hon rydym wedi gwneud cynnydd gyda'n strategaeth ystadau gan arwain at gau ac adleoli sawl swyddfa. Casglwyd data CO2 amgylcheddol o'r 29 swyddfa sy'n llwyr o dan ein rheolaeth a lle'r ydym yn derbyn anfonebau yn uniongyrchol gan y cyflenwr ynni. Rydym wedi cynnwys data o swyddfa Port Talbot a gaewyd yn ystod y flwyddyn.

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA CYF

BLWYDDYN DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019




| | 2016-2017 | 2017-2018 | 2018-2019 |
|---|---|---|---|
| Dŵr (litrau) | 2,897,000 | 2,901,000 | 2,764,000 |
| Milltiroedd busnes | 846,956 | 789,422 | 890,964 |
| Trydan khw | 922,977 | 812,168 | 662,257 |
| Nwy KHW | 1,740,895 | 1,750,295 | 1,620,897 |
| Nwyon tŷ gwydr Tunell C02 | 928 | 870 | 765 |
| | | | |
| Costau ariannol | £ | £ | £ |
| Nwy | 29,722 | 30,325 | 31 ,662 |
| Trydan | 109,109 | 101,731 | 116,086 |
| Dŵr | 16,288 | 16,053 | 13,913 |

Rhagorwyd ar ein holl dargedau ar gyfer y llynedd - llwyddwyd i sicrhau gostyngiad o 12% yn ein hallyriadau o 870 tunnell i 765 tunnell, a llwyddwyd i gyrraedd lefel 4 dyfarniad y Ddraig Werdd ar gyfer y cwmni cyfan. Ein polisi gydol y flwyddyn oedd buddsoddi mewn dau weithle o'n heiddo er mwyn sicrhau eu bod mor effeithlon â phosibl. Rydym wedi buddsoddi mewn goleuadau newydd, boeleri arbed ynni a dyfeisiau arbed dŵr yn ogystal ag adolygu ein seilwaith TG. Byddwn yn buddsoddi mewn dau eiddo arall yn y flwyddyn ariannol nesaf. Oherwydd newidiadau strwythur staffio, bu cynnydd sylweddol mewn milltiroedd busnes. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, go brin y gwelwn ni ostyngiad yng nghyfanswm y milltiroedd busnes neu'r defnydd ynni. Felly, yn adroddiad y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fesur cyfanswm allyriadau C02 ond bydd ein cymaryddion yn seiliedig ar allyriadau C02 fesul aelod o staff. Er mwyn cyflawni ein hamcanion yn unol â gofynion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol, byddwn yn rhoi mwy o bwyslais ar fioamrywiaeth, ac mae gan bob swyddfa ei chynllun bioamrywiaeth ei hun.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL YR ADRODDIAD BLYNYDDOL

### CYFLWYNIAD

Yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu) rwy'n bersonol gyfrifol am drefniadaeth, rheolaeth a staffio CCDG drwyddo draw.

Mae'r Datganiad Llywodraethu yn cwmpasu'r holl ddatgeliadau am faterion sy'n berthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n dweud sut rwyf wedi ysgwyddo fy nghyfrifoldeb i reoli a chadw trefn ar adnoddau CCDG yn ystod y flwyddyn.

### LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system a ddefnyddir i gynnig cyfeiriad i sefydliadau a'u rheoli. Mae Bwrdd CCDG yn gyfrifol am lywodraethu CCDG a chydymffurfio â'r cod llywodraethu corfforaethol. Rôl y Bwrdd yw bodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol ar waith a sicrhau drwof fi, y Prif Weithredwr, bod y sefydliad yn gweithredu o fewn y fframwaith polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Cadeirydd, Dr D Evans-Williams, a hyd at 13 o Gyfarwyddwyr eraill a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cadeirydd yn cael tâl ac mae'r Prif Weithredwr hefyd yn Gyfarwyddwr. Mae'r Bwrdd wedi cyfarfod bedair gwaith eleni.

Bydd pob Cyfarwyddwr ac aelodau'r Uwch Dîm Reoli yn llenwi ffurflen Datganiad Parti Cysylltiedig i sicrhau bod unrhyw achos posibl o wrthdaro buddiannau'n cael ei gofnodi. Llenwyd y ffurflen hon ddiwethaf hyd at fis Mawrth 2019. Atgoffir y Cyfarwyddwyr i ddatgan unrhyw achos o wrthdaro buddiannau cyn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Wedyn, bydd unrhyw wrthdaro'n cael ei ddatgan yn y cofnodion ac ni fydd y Cyfarwyddwr yn cymryd rhan yn y drafodaeth ar yr eitem honno ar yr agenda.

Penododd y Bwrdd dri Phwyllgor, pob un â'i Gylch Gwaith ei hun, er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol sy'n dangos bod arferion llywodraethu da ar waith. Dyma'r pwyllgorau:




Mae'r tablau isod yn dangos cofnod presenoldeb y Cyfarwyddwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau:

## COFNOD AELODAETH A PHRESENOLDEB 2018-19

### Cyfarfodydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr

| | 07/06/18 | 30/08/18 | 15/11/18 | 14/03/19 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Dr D Evans-Williams (Cadeirydd) | ✔ | ✔ | ✔ | x | 3/4 75% |
| Mr R A Wright | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Mrs E Richards | ✔ | x | ✔ | x | 2/4 50% |
| Mr I Prys-Jones | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Miss K Luckock | X | ✔ | | | 1/2 50% |
| Mrs L A Teichner | X | ✔ | X | ✔ | 2/4 50% |
| Miss E Harris | ✔ | X | ✔ | ✔ | 3/4 75% |
| Yr Athro S Maguire | ✔ | x | ✔ | ✔ | 3/4 75% |
| Mr R C Francis | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Miss S Jones | X | X | ✔ | X | 1/4 25% |
| Mr D A Dowling | X | ✔ | ✔ | ✔ | 3/4 75% |
| Prif Weithredwr | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |

Caiff holl gofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau eu darparu i'r Bwrdd ynghyd ag adroddiad llafar gan Gadeirydd y Pwyllgor ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd. Mae'r Prif Weithredwr yn aelod gweithredol o bob pwyllgor.

**Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg**

| | 31/05/18 | 12/07/18 | 13/09/18 | 17/01/19 | 08/03/19 (cyfarfod ychwanegol) | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr I Prys-Jones (Cadeirydd) | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | x | 4/5 80% |
| Mrs E Richards | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 5/5 1000/0 |
| Mr R A Wright | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 5/5 100% |
| Prif Weithredwr | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 5/5 100% |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | ✔ | | | | | 1/1 100% |
| Pennaeth Cyllid ac Ystadau | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 5/5 100% |
| SAC (Archwilwyr Allanol) | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | 4/5 80% |
| TIAA (Archwilwyr Mewnol) | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | | 4/5 80% |

**Pwyllgor Materion Pobl**

| | 03/05/18 | 06/08/18 | 07/11/18 | 28/02/19 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Miss K Luckock (Cadeirydd) | ✔ | ✔ | | | 2/2 100% |
| Miss E Harris (Cadeirydd) | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Mrs L A Teichner | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Prif Weithredwr | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 1000/0 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | ✔ | | | | 1/1 100% |

**Pwyllgor Perfformiad ac Effaith**

| | 10/05/18 | 10/08/18 | 04/10/18 | 28102119 | Presenoldeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Mr D A Dowling (Cadeirydd) | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Miss S Jones | ✔ | ✔ | X | X | 2/4 50% |
| Yr Athro S Maguire | X | ✔ | ✔ | ✔ | 3/4 75% |
| Mr R C Francis | X | X | ✔ | X | 1/4 25% |
| Prif Weithredwr | ✔ | ✔ | ✔ | ✔ | 4/4 100% |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cleientiaid | ✔ | ✔ | X | ✔ | 75% |
| Cyfarwyddwr Datblygu Busnes | | ✔ | ✔ | ✔ | 3/3 66.6% |

**Y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri Chyfarwyddwr a chyfarfu bum gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Ei Gylch Gwaith yw:

- i Sicrhau bod gan y cwmni system rheolaeth ariannol gadarn, a phrosesau effeithiol ar gyfer nodi, asesu a rheoli risgiau drwy ddefnyddio cofrestr risgiau;
- ii Argymell penodi bancwyr, archwilwyr mewnol, archwilwyr allanol a chynghorwyr ariannol eraill, yn ôl y gofyn, gan ddilyn y drefn briodol;
- iii Sefydlu gweithdrefn gadarn ar gyfer caffael, i sicrhau effeithlonrwydd a gwerth am arian;
- iv Sicrhau, yn unol â'r ddeddfwriaeth, bod gan y cwmni bolisïau effeithiol i ymdrin ag amheuon o afreoleidd-dra, twyll neu lwgrwobrwyo;
- v Adolygu iechyd ariannol y cwmni'n barhaus. Cynnwys proses o fonitro ac adolygu'r Cynllun Busnes a gwariant yn erbyn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol;
- vi Datblygu ac argymell cynllun busnes hyfyw, a chyllideb ar gyfer y cwmni bob blwyddyn;
- vii Ystyried datganiadau ariannol a gwneud argymhellion yn eu cylch, ac yn benodol, gyfrifon blynyddol y cwmni;
- viii Ystyried materion a gyfeirir at y Pwyllgor gan y Bwrdd; ac
- ix Adrodd i'r Bwrdd.

**Pwyllgor Materion Pobl**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri Chyfarwyddwr a chyfarfu dair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Dyma ei Gylch Gwaith:

- i. Bydd y Pwyllgor yn derbyn ac yn cymeradwyo unrhyw ddrafft cychwynnol ac ail ddrafftiau dilynol o'r Strategaeth Adnoddau Dynol a'r Cynllun(iau) Gweithredu;
- ii. Bydd y Pwyllgor yn sicrhau bod strwythur cyflogau priodol ar waith, ac, yn dibynnu ar allu'r cwmni i'w fforddio, yn pennu lefelau cyflog y Prif Weithredwr;
- iii. Bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith craffu trwyadl er mwyn sicrhau bod y cwmni'n cydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau cyflogaeth;
- iv. Bydd y Pwyllgor yn arwain ar faterion iechyd a diogelwch ac amrywiaeth;
- v. Bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion a gaiff eu cyfeirio ato gan y Bwrdd;
- vi. Bydd y Pwyllgor yn adrodd i'r Bwrdd am bob mater sy'n berthnasol i gyflogaeth a lles staff CCDG, ac yn cynnig cyngor ar faterion priodol;
- vii. Bydd y Pwyllgor hefyd yn hybu ac yn cefnogi:
    - datblygu polisïau cyflogaeth priodol, gan gynnwys y rheini ar gyfer penodi, telerau ac amodau, disgyblu, cwyno, gwobrwyo a chydnabod gweithwyr;
    - datblygu diwylliant a gwerthoedd y cwmni'n barhaus;
    - ymgysylltu â gweithwyr a'u cynnwys;
    - cyfathrebu effeithiol o fewn y sefydliad.

**Y Pwyllgor Perfformiad ac Effaith**

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys pedwar Cyfarwyddwr a chyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol. Ei Gylch Gwaith yw:

- i. Trosolwg o swyddogaethau datblygu, cyflawni a chefnogi gwasanaethau;
- ii. Monitro, craffu a chynghori ar berfformiad blwyddyn yn ymwneud ag ansawdd a maint a chynnydd yn erbyn y cynllun busnes;
- iii. Herio ac adolygu effaith y cwmni;

iv. Craffu ar a monitro'r defnydd o adborth gan gleientiaid a rhanddeiliaid wrth lywio datblygiad y gwasanaeth (gan gynnwys TGCh) a strategaethau ymgysylltu;
v. Hyrwyddo a chefnogi gwerth am arian, gan edrych ar ba wasanaethau i fuddsoddi adnoddau ynddynt er mwyn sicrhau elw da ar fuddsoddiad;
vi. Cefnogi ac adolygu'r ffordd y mae'r cwmni'n darparu'r gwasanaethau drwy sianeli TG/digidol/marchnata;
vii. Ystyried y materion hynny a gaiff eu cyfeirio at y Pwyllgor gan y Bwrdd; ac
viii. Adrodd i'r Bwrdd.

**Yr Uwch Dîm Rheoli**

Cyflwynwyd strwythur tîm newydd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r tîm yn cwrdd yn rheolaidd, bob wythnos mewn fideogynhadledd a bob mis wyneb-yn-wyneb i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol a gweithredol. Cyhoeddir adroddiad am berfformiad CCDG bob chwarter a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Bwrdd i fonitro'r cynnydd o'i gymharu â'r cynllun busnes.

**Data absenoldeb salwch**

Dros y deuddeg mis diwethaf collodd y Cwmni 4.2% o ddiwrnodau gwaith cynhyrchiol yn sgil absenoldeb oherwydd salwch (4.7% yn y cyfnod adrodd blaenorol). Absenoldebau am lai nag 20 diwrnod oedd 2.2% o'r rhain. Mae'r gweddill yn absenoldeb am gyfnodau hir a bu sawl achos nodedig o salwch hirdymor, gan arwain at ymddeoliad neu ymddiswyddo oherwydd salwch.

Rydym wedi defnyddio'r arferion gorau canlynol i reoli absenoldeb oherwydd salwch:

- Cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ar ôl pob absenoldeb, a'r adran Adnoddau Dynol yn adolygu gwaith papur ac yn dilyn trywydd hyn i sicrhau ansawdd y gwaith.
- Defnyddio ffactor Bradford i ganfod y gweithwyr hynny sydd â lefelau uchel o absenoldeb tymor byr er mwyn targedu ymdrechion. .
- Nodi'r unigolion sy'n absennol am gyfnod di-dor o 19 diwrnod a mwy a'u helpu i ddychwelyd i'r gwaith yn fuan drwy gynnig cyfle i ddychwelyd gam wrth gam (gweithio'n rhan-amser am gyfnod adsefydlu byr).
- Defnyddio sbardunau sy'n berthnasol i niferoedd ac amlder absenoldebau tymor byr sy'n ysgogi camau megis cyfarfodydd cwnsela anffurfiol a ffurfiol ac o bosibl rhybuddion.
- Cyfeirio pobl at y gwasanaeth iechyd galwedigaethol pan welir patrymau o absenoldeb aml a chynyddol ac er mwyn rheoli ymddeoliadau oherwydd afiechyd.
- Atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol cynnar ar gyfer achosion o salwch meddwl.
- Gweithio gydag undebau llafur cydnabyddedig ar fentrau absenoldeb.
- Mae'r rheolwyr yn derbyn ystadegau absenoldeb bob mis i drafod gyda'u timau.
- Defnyddio cylchlythyr y cwmni i hyrwyddo mentrau iechyd.
- Defnyddio gwasanaeth allanol er mwyn i weithwyr adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch a monitro bod cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cwblhau. Mae hyn yn darparu data cadarn iawn am salwch.
- Strategaethau iechyd a lles rhagweithiol sydd wedi arwain at ennill gwobr efydd Safon Iechyd Corfforaethol.

**Chwythu'r chwiban**

Er 2013, mae gan CCDG bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban a gafodd eu trafod a'u cytuno â'r undeb llafur cydnabyddedig. Cyflwynwyd y polisi i bob gweithiwr drwy gylchlythyr y Cwmni ac mae ar gael i unrhyw weithiwr, yn ddwyieithog, ar fewnrwyd y Cwmni. Mae'r polisi'n cynghori gweithwyr am yr hyn y dylid ei wneud ac wrth bwy y dylid adrodd, yn fewnol ac yn allanol, os byddant yn credu bod achos o gamymddwyn ac y byddai datgelu hynny o fudd i'r cyhoedd. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys hawliau gweithwyr ac yn eu cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth am gyrff adrodd perthnasol. Ni fu unrhyw achos o chwythu'r chwiban yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Rheoli risgiau**

Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am reoli'r risgiau sy'n berthnasol i weithrediadau CCDG. Mae CCDG wedi cynnal asesiad risg cynhwysfawr o'r risgiau sy'n ei wynebu. Mae'r prif risgiau wedi'u cynnwys yng Nghofrestr Risgiau CCDG sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg, a'r Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni nodau ac amcanion y sefydliad ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae cofrestr risg CCDG yn nodi'r risgiau posib sy'n deillio o waith y cwmni. Mae'r risgiau hyn yn cael eu blaenoriaethu ar Fatrics Risgiau a rhoddir proffil risg iddynt yn unol â'r effaith a'r tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd. Caiff y sgoriau risg hyn eu hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg a'u hadrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd. Mae'r Gofrestr Risgiau'n cynnwys rhestr o gamau ataliol ar gyfer pob un o'r risgiau a nodir, yn ogystal â'r mesurau a'r camau wrth gefn er mwyn lliniaru canlyniadau digwyddiad a gostwng lefel y risg, gan hwyluso'r camau adfer yn achos unrhyw argyfwng. Bwriad y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg hyd at lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg/perygl o fethu er mwyn cyflawni polisïau, nodau ac amcanion - felly dim ond sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd llwyr y gellir ei roi y bydd yn effeithiol.

Fel Prif Weithredwr, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad hwn yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a benodwyd a rheolwyr CCDG sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ynghyd â sylwadau ac argymhellion a wneaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli a'r archwilwyr mewnol yn eu hadroddiadau. Mae'r archwilwyr mewnol yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ac yn cynnig barn flynyddol annibynnol am ba mor ddigonol ac effeithiol yw system rheolaeth fewnol CCDG, ynghyd â'r argymhellion ar gyfer gwella. Mae'r archwilwyr mewnol yn gweithredu'n unol â safonau a ddiffinnir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Maent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac yn cyflwyno'u hadroddiadau i'r Pwyllgor ac yn sôn am y cynnydd a wnaed o ran y rhaglen waith a gynlluniwyd. Cafwyd sicrwydd cymedrol ym marn yr archwiliad mewnol am ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth CCDG yn ystod y flwyddyn. Yn ystod yr archwiliad mewnol, ni welwyd unrhyw wendidau rheoli sylweddol ac felly, doedd dim i awgrymu nad oedd y sefydliad yn cynnal statws risg isel. Archwiliwyd y meysydd a ganlyn yn ystod y flwyddyn: y gyflogres, llywodraethu a rheoli risg, sicrwydd data a llywodraethu gwybodaeth, trefniadau gwrth-dwyll, rheolaeth ariannol a chyllidebol allweddol.

Caiff y Strategaeth Archwilio Mewnol ei phennu gan y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg ac fe'i hadolygir gan y Bwrdd. Yn fwy cyffredinol, mae CCDG wedi ymrwymo i broses

datblygu a gwella barhaus, datblygu systemau er mwyn ymateb i unrhyw adolygiadau a datblygiadau perthnasol o ran yr arferion gorau yn y maes hwn. Mae cynlluniau gweithredu priodol ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw wendidau a welir ac i sicrhau gwelliant parhaus. Bydd rheolwyr yn rhoi argymhellion yr archwilydd mewnol ar waith a'r argymhellion yn llythyr rheoli'r archwiliad allanol. Bydd y Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn dal i fonitro'r gweithgarwch hwn.

Rwy'n fodlon bod fframwaith llywodraethu cadarn a system rheoli mewnol ar waith ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19. Mae'r rhain wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion CCDG; wedi hwyluso cyflawni swyddogaethau CCDG yn effeithiol ac wedi diogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol amdanyn nhw'n bersonol. Mae'r materion llywodraethu a rheoli yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi, yn Nogfen Fframwaith CCDG, gan Lywodraeth Cymru.

Nikki Lawrence
Prif Weithredwr Dros Dro a Swyddog Cyfrifyddu CCDG

## DATGANIAD AM GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi dewis paratoi'r Datganiadau Ariannol yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau, ni chaiff Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r Datganiadau Ariannol oni fyddant yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg ar gyflwr materion ariannol y cwmni a'r elw a'r golled yn ystod y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol hyn, bydd gofyn i'r Cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson wedyn; a
- Llunio barn ac amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn ddoeth; a
- Datgan bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio ag IFRS; a
- Paratoi Datganiadau Ariannol ar sail busnes byw oni fydd yn amhriodol tybio y bydd y cwmni'n parhau mewn busnes.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol i ddangos ac esbonio trafodion y cwmni, a datgelu'n gymharol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni a'u galluogi i sicrhau bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Byddant hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

## DATGANIAD AM DDATGELU GWYBODAETH I ARCHWILWYR

Cyn belled ag y gŵyr y Cyfarwyddwyr, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol (fel y'i diffinnir yn Adran 418, Deddf Cwmnïau 2006) nad yw archwilwyr y cwmni'n ymwybodol ohonynt, ac mae pob Cyfarwyddwr wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd fel Cyfarwyddwr er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## ARCHWILWYR

Penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Lywodraeth Cymru yn archwilwyr allanol i'r Cwmni.

## AR RAN Y BWRDD:

~~Prys-Jones - Director~~
Mr I Prys-Jones, Cyfarwyddwr

Dyddiad: 12 September 2019

## Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelod o Career Choices Dewis Gyrfa LTD

### Adroddiad archwilio'r datganiadau ariannol

**Barn**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Career Choices Dewis Gyrfa am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019 sy'n cynnwys y Datganiad Elw a Cholled, y Datganiad Elw a Cholled ac Incwm Cynhwysfawr Arall, y Datganiad am y Sefyllfa Ariannol, y Datganiad am Newidiadau mewn Ecwiti, y Datganiad am Lif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu. Y fframwaith adroddiadau ariannol sydd wedi'i ddefnyddio wrth eu paratoi yw'r gyfraith sy'n berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg gwir a theg ar sefyllfa ariannol y cwmni ar 31 Mawrth 2019 a'i golledion yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r IFRS fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- wedi'u paratoi'n unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â chyfraith gymwys a Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd mewn perthynas â datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar y cwmni yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i archwilio datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gafwyd gennyf yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd am y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (UK) yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd amdanynt, lle:

- nad yw defnydd y cyfarwyddwyr o'r sail busnes byw o gyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nad yw'r cyfarwyddwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o sylwedd a allai arwain at amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r cwmni i barhau i fabwysiadu'r sail busnes byw ar gyfer cyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis fan leiaf o'r dyddiad y caiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

**Gwybodaeth arall**

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad yr archwilydd yn dilyn hynny. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw gasgliad sicr mewn perthynas â hynny, heblaw i'r graddau a nodwyd yn benodol yn fy adroddiad.

Mewn cysylltiad ag archwilio'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall i nodi anghysondebau o sylwedd yn y datganiadau ariannol a

archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth y tybir ei bod yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar, neu'n sylweddol anghyson â'r, wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad. Os byddaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau o sylwedd, rwy'n ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar reoleidd-dra**

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion y bwriadai'r Cynulliad Cenedlaethol iddynt gael eu defnyddio ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

**Adroddiad ar ofynion eraill**

**Barn am fater[ion] eraill a bennwyd yn Neddf Cwmnïau 2006**

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol;
- mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr wedi'u paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

**Materion y byddaf yn adrodd amdanynt drwy eithriad**

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth am y cwmni a'i amgylchedd a gasglwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi gweld unrhyw gamddatganiadau o sylwedd yn yr adroddiad strategol nac adroddiad y cyfarwyddwyr.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd am y materion a ganlyn y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd wrthych yn eu cylch, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw, neu os nad oes datganiadau digonol ar gyfer ein harchwiliad wedi dod gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyfateb i'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw datgeliadau penodol ynghylch y taliadau i gyfarwyddwyr a bennir drwy'r gyfraith wedi'u gwneud;
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i mi eu cael ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad oedd gan y cyfarwyddwyr hawl i baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfundrefn cwmnïau bach.

**Adroddiad**

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr ar gyfer y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y datganiadau am gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr ar dudalen 22, y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol ac yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg o'r sefyllfa, ac am reolaeth fewnol y mae'r cyfarwyddwyr yn pennu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi sy'n rhydd o gamddatganiadau, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni i barhau fel busnes byw, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, materion sy'n ymwneud â busnes byw a defnyddio'r sail busnes byw ar gyfer cyfrifyddu oni fydd hynny'n amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw casglu tystiolaeth ddigonol am y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd i gynnig sicrwydd rhesymol nad oes camddatganiadau o sylwedd yn y datganiadau hynny, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrwydd lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad sy'n cael ei gynnal yn unol ag ISAs (UK) bob amser yn canfod camddatganiad o sylwedd pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn rhai o sylwedd os, yn unigol neu ar y cyd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr wrth iddynt ystyried y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol, ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol - www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o adroddiad yr archwilydd.

### Cyfrifoldebau rheoleidd-dra

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Rwy'n gyfrifol am fynegi barn ar a yw'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadai'r Cynulliad Cenedlaethol iddynt gael eu defnyddio a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian
Crompton

24 Heol y Gadeirlan
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Caerdydd
CFII 9LJ

16 Medi 2019

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrion hyn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. CCDG Career Choices Dewis Gyrfa Ltd sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

## DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED
## AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

| | Nodiadau | 2019<br>£'000 | 2018<br>£' 000 |
|---|---|---|---|
| **GWEITHREDIADAU PARHAUS** | | | |
| Refeniw | 2 | 27,015 | 26,429 |
| Treuliau gweinyddol | | (30,569) | (27,443) |
| Colled yn deillio o eitemau sy'n gysylltiedig ag eiddo | 1 | (32) | (2) |
| **(COLLED) GWEITHREDOL CYN COSTAU AD-DREFNU SYLFAENOL** | | **(3,586)** | **(1,016)** |
| Eitemau eithriadol | 4 | - | (533) |
| **(COLLED) GWEITHREDOL** | | **(3,586)** | **(1 ,549)** |
| Costau cyllid | 5 | (5,816) | (5,555) |
| Incwm cyllid | 5 | 5,038 | 4,717 |
| **(COLLED) CYN TRETH** | | **(4,364)** | **(2,387)** |
| Treuliau treth | 7 | (3) | (2) |
| **(COLLED) AR GYFER Y FLWYDDYN** | | **(4,367)** | **(2,349)** |
| (Colled) i'w phriodoli i:<br>Perchnogion y cwmni | | (4,367) | (2,389) |

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i 59 yn ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol

# DATGANIAD AM ELW NEU GOLLED AC INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

| | Nodiadau | 2019<br>£'000 | 2018<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **(COLLED) AR GYFER Y FLWYDDYN** | | **(4,367)** | **(2,389)** |
| **INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AR GYFER Y FLWYDDYN Eitemau na chânt eu hailgategoreiddio i'r elw neu'r golled:** | | | |
| Gwarged Ailbrisio | 12 | - | 241 |
| Enillion/(Colled) Actwaraidd ar gynllun pensiwn | 17 | (4,519) | (5,387) |
| **INCWM CYNHWYSFAWR ARALL AR GYFER Y FLWYDDYN, NET O DRETH** | | (4,519) | 5,628 |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AR GYFER Y FLWYDDYN** | | (8,886) | 3,239 |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr y gellir ei briodoli i: | | | |
| Berchnogion y cwmni | | 3,239 | (13,117) |

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i 59 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

## DATGANIAD AM Y SEFYLLFA ARIANNOL

## 31 MAWRTH 2019

| | Nodiadau | 2019 £'000 | 2018 £'000 |
|---|---|---|---|
| **ASEDAU** | | | |
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 8 | 2,575 | 2,734 |
| Asedau anniriaethol | 9 | 1 ,064 | 282 |
| | | **3,639** | **3,016** |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Symiau masnach a symiau eraill a dderbyniwyd | 10 | 3,833 | 3,463 |
| Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod | 11 | 477 | 2,839 |
| | | | 3,639 |
| | | 3,016 | |
| | | | 4,310 |
| | | 6,302 | |
| **CYFANSWM ASEDAU** | | **7,949** | **9,318** |
| **RHWYMEDIGAETHAU** | | | |
| **RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Rhwymedigaeth pensiwn | 17 | 39,423 | 30,513 |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13 | 10 | 16 |
| | | 39,433 | 30,529 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | |
| Symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13 | 1 ,839 | 3,071 |
| Darpariaethau | 15 | - | 156 |
| Treth sy'n daladwy | 7 | 3 | 2 |

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i 59 yn ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | 1 ,842 | 3,229 |
| | | | 39,433 | 30,529 |
| **CYFANSWM RHWYMEDIGAETHAU** | | | 41,275 | 33,758 |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU** | | | (33,326) | (24,440) |
| **ECWITI** | | | | |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 12 | 241 | 241 |
| Enillion a gadwyd | 12 | | (33,567) | (24,681) |
| **CYFANSWM ECWITI** | | | (33,326) | (24,440) |

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019, roedd gan y cwmni hawl i gael ei eithrio o ofynion Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 dan adran 482 y Ddeddf hon (cwmnïau nad ydynt yn gwneud elw sy'n cael archwiliad sector cyhoeddus).

Cafodd y Datganiadau Ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 12 Medi 2019 a'u llofnodi ar ei ran gan:

Mr I Prys-Jones – Cyfarwyddwr
Rhif cwmni cofrestredig: 07442837

## DATGANIAD O NEWIDIADAU MEWN ECWITI AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

| | Enillion a gadwyd | Y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn | Cyfanswm Ecwiti |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £' 000 | £'000 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2017** | (27,679) | - | (27,679) |
| **Newidiadau mewn ecwiti** | | | |
| Ailbrisio yn ystod y flwyddyn | | 241 | 241 |
| Colled am y flwyddyn | (2,389) | - | (2,389) |
| Enillion actwaraidd | 5,387 | - | 5,387 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | (24,681) | 241 | (24,440) |
| **Newidiadau mewn ecwiti** | | | |
| Colled am y flwyddyn | (4,367) | | (4,367) |
| Colled actwaraidd | (4,519) | - | (4,519) |
| Balans ar 31 Mawrth 2019 | (33,567) | 241 | (33,326) |

## DATGANIAD LLIF ARIAN
## AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN
## 31 MAWRTH 2019

| | Nodiadau | 2019<br>£'000 | 2018<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Arian a gynhyrchir o weithrediadau | | (551) | 559 |
| Llog a dalwyd | 5 | (5) | (5) |
| Treth a delir | 7 | (3) | (2) |
| Arian net o weithgareddau gweithredu | | (559) | 552 |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 9 | (1 ,766) | (250) |
| Prynu eiddo, offer a pheiriannau | 8 | (52) | (121) |
| Llog a dderbyniwyd | 5 | 15 | 8 |
| Arian net o weithgareddau buddsoddi | | (1 ,803) | (363) |
| **Llifau arian parod o weithgareddau cyllido** | | | |
| **Cynyddu (Gostyngiad) mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod** | | (2,362) | 189 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn** | 11 | 2,839 | 2,650 |
| **Arian parod a symiau cyfwerth ar ddiwedd y flwyddyn** | 11 | 477 | 2,839 |

Mae'r nodiadau o dudalen 31 i 59 yn rhan o'r Datganiadau Ariannol

## NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIAD AM LIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

### CYSONI'R (GOLLED) CYN TRETH GORFFORAETHOL Â'R ARIAN PAROD A GYNHYRCHWYD YN SGIL GWEITHREDU

| | Nodiadau | 2019<br>£'000 | 2018<br>£' 000 |
|---|---|---|---|
| (Colled) cyn treth gorfforaethol a llog | | (4,374) | (2,390) |
| Dibrisiant a nam ar eiddo | 8 | 211 | 175 |
| Costau amorteiddio a namau | 9 | 984 | 462 |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | 5 | 5,811 | 5,550 |
| Enillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn | 5 | (5,023) | (41709) |
| | | (2,391) | (912) |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill | 10 | (370) | 1 ,580 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn darpariaethau | 15 | (156) | (61) |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach a symiau taladwy eraill | 13 | (1 ,238) | (1,810) |
| Gwahaniaeth rhwng costau pensiwn a chyfraniadau arian parod | | 3,604 | 1,762 |
| **Arian a gynhyrchir o weithrediadau** | | (551) | 559 |

# NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019

## 1 .POLISÏAU CYFRIFYDDU

### Sail y paratoi

Paratowyd y Datganiadau Ariannol hyn yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a dehongliadau'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) ac â'r rhannau hynny o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n cyflwyno adroddiadau o dan IFRS. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i diwygiwyd drwy ailbrisio asedau penodol. Mae'r Cyfarwyddwyr wedi ystyried effaith y safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ond nad ydynt eto ar waith ac nas mabwysiadwyd yn gynnar gan y cwmni.
Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn na chaiff hyn effaith newydd ar y datganiadau ariannol heblaw am brydlesi IFRS16 a fydd yn gymwys o 2021-2022. Ni allwn fesur effaith y safon newydd yn rhesymol ar hyn o bryd.

### Cydnabod refeniw

Yn dilyn adolygiad gan CThEM, ni all CCDG adennill TAW ar gontractau Llywodraeth Cymru mwyach gan fod y refeniw'n cael ei ddosbarthu fel arian grant erbyn hyn. Felly, rydym wedi diwygio ein polisi cyfrifyddu cyfredol i ystyried hyn. Cydnabyddir y cyllid hwn yn unol â gofynion IAS 20 – Cyfrifo am Grantiau Llywodraeth a Datgelu Cymorth gan y Llywodraeth (*Accounting for Government Grants and Disclosure of Government Assistance)* – mae'r grant yn cael ei gyfateb yn y cyfnod perthnasol â'r gost y bwriedir iddynt ei ddigolledu, bydd unrhyw grant sydd heb ei wario yn cael ei ohirio neu ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Caiff grantiau sy'n ymwneud ag asedau cyfalaf (diriaethol neu anniriaethol) eu cydnabod yn y datganiad o elw a cholled dros oes ddefnyddiol yr ased. Hyd nes y cydnabyddir y gost, caiff y grant ei drin fel incwm grant gohiriedig. Cydnabuwyd statws grant o Ebrill 2018 felly nid oes unrhyw effaith ar gyfnodau blaenorol. Mae grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael eu trin yn wahanol, rydym yn cydnabod yr incwm hwn o fis i fis i ddigolledu'r costau cysylltiedig.

Caiff incwm o gontractau ei gydnabod yn y cyfrifon pan gaiff yr anfoneb ei chodi. Rydym wedi cynnal adolygiad o incwm o 2017/18 er mwyn penderfynu a oedd IFRS 15 – Revenue from Contracts with Customers wedi cael unrhyw effaith ar yr incwm a nodwyd. Ni wnaeth yr adolygiad dynnu sylw at unrhyw feysydd oedd angen eu hailddatgan.

### Darpariaethau

Mesurir darpariaethau yn ôl gwerth presennol y gwariant y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Bydd darpariaeth yn cael ei gwneud os bodlonir y meini prawf canlynol :

- bod rhwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) wedi codi yn sgil digwyddiad yn y gorffennol (y digwyddiad sy'n creu'r rhwymedigaeth),
- bod taliad yn debygol (yn fwy tebygol na pheidio), a
- bod modd amcangyfrif y swm yn ddibynadwy.

**Rhwymedigaeth wrth gefn**

Bydd rhwymedigaeth wrth gefn yn cael ei chofnodi yn y cyfrifon os caiff un o'r canlynol eu bodloni:

a) rhwymedigaeth bosibl sy'n deillio o ddigwyddiadau'r gorffennol ac y cadarnheir eu bodolaeth yn unig gan ddigwyddiad neu ddiffyg digwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o dan reolaeth yr endid; neu

b) rhwymedigaeth bresennol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ond nid yw'n cael ei chydnabod oherwydd:

i) nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau sy'n ymgorffori buddion economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth; neu

ii) ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon dibynadwy

1. **POLISÏAU CYFRIFYDDU - parhad**

Byddwn yn gwneud datgeliad yn y cyfrifon pan fydd rhwymedigaeth bosibl neu rwymedigaeth bresennol a allai, ond na fydd yn debygol o fod, yn gofyn am all-lif o adnoddau

**Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod**

Yn y datganiad am lif arian, mae arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac adneuon a gedwir yn y banc.

**Cronfeydd wrth gefn**

Pan fo angen, gallai'r cwmni gadw dwy gronfa wrth gefn. Yn gyntaf, Enillion a Gedwir, sef elw a cholledion cronnus y cwmni ac yn ail, y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn sy'n cynnwys enillion y cwmni sy'n deillio o gynnydd yng ngwerth ei Eiddo, ei Gyfarpar a'i Offer ac Asedau Anniriaethol. Bydd y balans ar y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn cael ei ostwng pan fydd asedau sy'n cynnwys enillion cronnus:

- yn cael eu hailbrisio i'w gwerth is neu'n cael eu lleihau gan golli'r enillion;

- yn cael eu gwaredu a'r enillion yn cael eu gwireddu.

**Eiddo, offer a chyfarpar**

Bydd eitemau unigol dros £2,500 yn cael eu categoreiddio'n asedau sefydlog. Ni fydd CCDG yn grwpio asedau i'w cyfalafu.

Mae eiddo ar rydd-ddaliad wedi'i rannu'n ddwy elfen, sef adeiladau a thir. Yn achos tir ac adeiladau, bydd ffioedd cyfreithiol a phroffesiynol cysylltiedig yn cael eu cyfalafu hefyd. Dim ond yr elfen adeiladau fydd wedi'i dibrisio.

Mae IAS16 yn mynnu bod asedau'n cael eu rhannu'n ddwy elfen, os yw'r gost yn sylweddol o ran cyfanswm yr ased. Os bydd cydrannau adeilad yn sylweddol fwy, byddant yn endidau ar wahân yn y nodyn PPE ac yn cael eu dibrisio dros oes fuddiol y gydran, yn ôl yr amcangyfrif

Darperir dibrisiant yn y cyfraddau blynyddol canlynol er mwyn dileu pob ased dros ei oes fuddiol amcangyfrifedig.

| | |
|---|---|
| Eiddo ar rydd-ddaliad | Llinell syth dros 50 mlynedd |
| Eiddo ar lesddaliad | 5 mlynedd neu weddill tymor y les, p'un bynnag fydd leiaf |
| Gosodiadau a ffitiadau | 5 mlynedd |
| Offer cyfrifiadurol | 3 mlynedd |

**Prisiadau**

Bydd Tir ac Adeiladu'n cael eu prisio ar sail gwerth teg, ar sail eu gwerth ar y farchnad agored ar gyfer eu defnydd ar y pryd, a byddant yn cael eu hailbrisio gan gwmni proffesiynol annibynnol bob pum mlynedd yn unol â safonau prisio RICS. Cynhaliwyd yr ailbrisiad diwethaf ym mis Mawrth 2018 gan Hirons, Morgans & Yapp, priswyr cofrestredig RICS. Credai'r priswyr nad oedd diffygion strwythurol neu ddylunio'n berthnasol i'r eiddo na phydredd na phla a'u bod yn cydymffurfio â phob gofyniad statudol angenrheidiol. Roedd y priswyr hefyd y tybio nad oedd yr eiddo dan forgeisi nac arwystlon. Nid oeddent yn credu bod unrhyw faterion amgylcheddol yn cael dylanwad sylweddol ar eu gwerth. Ym mhob blwyddyn ariannol, byddwn yn cynnal asesiad o'r holl asedau er mwyn penderfynu a oes unrhyw namau sy'n ofynnol. Dangosodd adolygiad o'r tir a'r adeiladau gan Hirons & Yapp fod gwerth yr eiddo ym Mangor a Wrecsam wedi newid gan arwain at dâl amhariad yn y datganiad o elw a cholled, gwerth £32k.

## 1.POLISÏAU CYFRIFYDDU - parhad

### Asedau Anniriaethol

Bydd Trwyddedau Meddalwedd sydd ag oes fuddiol benodol yn cael eu hamorteiddio dros yr oes honno ar sail llinell syth. Bydd datblygiad y fewnrwyd yn cael ei amorteiddio dros ddwy flynedd, o'r dyddiad yr aeth yn 'fyw' ar y wefan. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae blwyddyn lawn o gostau wedi'u hamorteiddio'n cael eu cynnwys yn y Datganiad o Elw a Cholled.

Mae costau amorteiddio a thaliad amhariad asedau anniriaethol yn cael eu cynnwys mewn treuliau haniaethol wedi'u cynnwys yn y treuliau gweinyddol yn y Datganiad Elw a Cholled.

### Trethiant

Mae trethi cyfredol yn seiliedig ar y canlyniadau a ddangosir yn y Datganiadau Ariannol ac fe'u cyfrifir yn unol â rheolau trethi lleol, gan ddefnyddio cyfraddau treth sydd naill ai ar waith neu ar waith yn sylweddol erbyn dyddiad y datganiad am y sefyllfa ariannol.

### Costau buddion gweithwyr

Ar gyfer cynlluniau â buddion wedi'u diffinio, y symiau a briodolir i'r elw gweithredol yw costau cyfredol y gwasanaeth a'r enillion a'r costau sy'n gysylltiedig â setliadau a chwtogiadau. Maent wedi'u cynnwys fel rhan o gostau staff. Bydd costau gwasanaeth y gorffennol yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y cyfrif elw a cholled os bydd gan weithiwr hawl lwyr ar y buddion. Os na fydd ganddo hawl lwyr i'r buddion ar unwaith, bydd y costau'n cael eu cydnabod dros y cyfnod nes bydd ganddo'r hawl lwyr iddynt. Dangosir cost y llog a'r enillion a ddisgwylir ar yr asedau fel swm net o gostau neu gredydau cyllid eraill wrth ymyl y llog. Cydnabyddir enillion a cholledion actwaraidd ar unwaith yn y datganiad elw a cholled ac incwm cynhwysfawr arall. Mae'r cynlluniau â buddion wedi'u diffinio wedi'u cyllido, a chedwir asedau'r cynllun ar wahân i rai'r grŵp, mewn cronfeydd ar wahân sy'n cael eu gweinyddu gan ymddiriedolwyr. Bydd asedau'r cynllun pensiwn yn cael eu mesur ar sail gwerth teg a bydd rhwymedigaethau'n cael eu mesur ar sail actwaraidd gan ddefnyddio'r dull 'unedau wedi'u rhagamcanu' a'u disgowntio ar gyfradd sydd gyfwerth â'r gyfradd enillion ar fond corfforaeth o safon mewn arian cyfred ac am gyfnod sy'n cyfateb i rwymedigaethau'r cynllun.

Ceir y prisiadau actwaraidd o leiaf bob tair blynedd a'u diweddaru ar ddyddiad pob mantolen. Mae'r ased neu'r rhwymedigaeth â buddion wedi'u diffinio, llai treth ohiriedig, yn cael eu cyflwyno ar wahân ar ôl asedau net eraill ar wyneb y fantolen.

**Prydlesi gweithredol**

Priodolir rhenti prydlesi gweithredol yn y cyfrif elw a cholled. Nod y cwmni yw cynnwys cymalau torri yn eu prydlesi er mwyn lleihau ymrwymiad y cwmni. Bydd prydlesi'n cael eu hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn brydlesi gweithredol yn hytrach nag yn brydlesi cyllid.

**Defnyddio amcangyfrifon a'r farn a luniwyd**

Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol, bydd gofyn i'r cwmni lunio amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar roi'r polisïau a'r symiau yr adroddir yn eu cylch ar waith. Mae'r amcangyfrifon a'r farn a luniwyd yn cael eu hadolygu'n barhaus. Bydd diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod pan ddiwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod yr effeithir arno yn y dyfodol.

Rhoddir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif arwyddocaol a barn feirniadol wrth roi polisïau cyfrifyddu ar waith sy'n effeithio fwyaf ar y symiau a gydnabyddir yn y Datganiadau Ariannol yn y nodyn a ganlyn:

Nodyn 17 - bydd mesur cyfraniadau â buddion wedi'u diffinio yn dibynnu ar ddethol rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ddisgownt, twf cyflogau, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r enillion disgwyliedig ar asedau'r cynllun.

## 1. POLISÏAU CYFRIFYDDU - parhad

Dyma feysydd hanfodol eraill sy'n berthnasol i amcangyfrif a llunio barn:-

- Mae ailbrisio eiddo, cyfarpar ac offer a phrisiadau les-ddaliadau wedi'u seilio ar gyngor proffesiynol.
- Mae amcangyfrifon ynglŷn â chroniadau ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u seilio ar waith a gwblhawyd neu nwyddau a dderbyniwyd ond nas anfonebwyd.

**Busnes byw**

Y cyllid craidd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol nesaf ar gyfer CCDG fydd £18.9 miliwn.

## 2. REFENIW

| | | 2019 | 2018 |
|---|---|---|---|
| | | £'000 | £' 000 |
| Llywodraeth Cymru | - Craidd | 18,944 | 19,050 |
| Llywodraeth Cymru | - incwm arall | 5,791 | 4,895 |
| Prosiectau ESF | - Sbardun | 1,875 | 2,004 |
| Contractau eraill | | 405 | 480 |
| | | 27,015 | 26,429 |

## 3 . GWEITHWYR A CHYFARWYDDWYR

Costau staff

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| | £' 000 | £'000 |
| Cyflogau | 15,362 | 15,194 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 1 ,432 | 1 ,427 |
| Costau pensiwn eraill | 5,785 | 6,445 |
| | 27,015 | 26,429 |

22,579 23,066

Niferoedd staff

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Rheoli a gweinyddu | 72 | 73 |
| Darparu gwasanaethau | 500 | 502 |
| | 572 | 575 |

**3. GWEITHWYR A CHYFARWYDDWYR - parhad**

Costau uwch-weithwyr

| | 2019 | | 2018 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfarwyddwyr | Uwch-reolwyr | Cyfarwyddwyr | Uwch-reolwyr |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Buddion tymor byr i weithwyr | 120 | 216 | 132 | 252 |
| Buddion ôl-gyflogaeth | 21 | 19 | 12 | 47 |
| Buddion terfynu | - | | 82 | (9) |
| | 141 | 235 | 226 | 290 |

Cafodd Mrs NJ Lawrence, cyn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, ei phenodi'n Brif Weithredwr dros dro ar 1 Mehefin 2018. O ganlyniad, dangosir rhan o'i chostau ar gyfer 2019 yn y darn Uwch-reolwyr a'r balans yng nghostau'r Cyfarwyddwyr.

Mae taliadau Uwch-reolwyr yn cynnwys costau'r Cyfarwyddwr Datblygu Busnes a dalwyd drwy asiantaeth allanol. Mae hefyd yn cynnwys taliadau honorariwm a dalwyd i sawl aelod o'r staff er mwyn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn gweithio'n rhannol yn rolau naill ai'r Cyfarwyddwr Datblygu Busnes neu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol am gyfnod o'r flwyddyn ariannol.

Mae ffigur y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2018 yn cynnwys costau diswyddo ar ôl ymestyn rôl y Prif Weithredwr dros dro i fis Mai 2018. Mae ffigur yr Uwch-reolwyr ar gyfer 2018 yn ymddangos fel swm negyddol oherwydd gofynnwyd i uwch-reolwr arall a oedd wedi diswyddo'n wirfoddol, i aros yn ei swydd am gyfnod pellach tra bod trefniadau rheoli newydd yn cael eu rhoi ar waith. Golygai hyn fod y costau straen pensiwn yn llai na'r croniad yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Isod, rhestrir nifer y Cyfarwyddwyr yr oedd buddion ymddeol yn cronni ar eu cyfer:

| | 2019 | 2018 |
|---|---|---|
| Cynllun cyflog terfynol | 2 | 2 |

## 4. EITEMAU EITHRIADOL

Cynllun rhyddhau gwirfoddol

Mae'r eitem eithriadol y cyfeiriwyd ati yn y cyfrifon y llynedd yn ymwneud â'r cynllun rhyddhau gwirfoddol a ddigwyddodd yn ystod cyfnod cyfrifyddu 17/18. Costau cysylltiedig yr ymarfer hwn, gan gynnwys straen pensiwn actwaraidd, oedd £453k. Hefyd, roedd £80k pellach o gostau a dalwyd yn 2017/18 o ganlyniad i newid yn y dyddiad diswyddo ar gyfer y Prif Weithredwr dros dro fel y cyfeirir ato yn nodyn 3.

## 5. INCWM CYLLID NET

| | **2019**<br>£'000 | **2018**<br>£'000 |
|---|---|---|
| Incwm cyllid: | | |
| Llog cyfrif adneuo | 15 | 8 |
| Enillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun pensiwn | 5,023 | 4,709 |
| | 5,038 | 4,717 |
| Costau cyllid: | (5) | |
| Llog banc | | |
| Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn | | |
| Incwm cyllid net | | |

## 6. (COLLED) CYN TRETH

Nodir (colled) cyn treth ar ôl prisio:

| | 2019<br>£'000 | 2018<br>£'000 |
|---|---|---|
| Lesoedd gweithredol eraill | 689 | 704 |
| Dibrisiant | 179 | 176 |
| Amorteiddiad ac Amhariad | 1,016 | 462 |
| Taliadau archwilwyr – Allanol | 90 | 75 |
| - Mewnol | 14 | 14 |
| | 1,988 | 1,431 |

Mae ffigurau 2019 yn cynnwys TAW lle bo'n berthnasol.

## 7. TRETH GORFFORAETHOL

### Dadansoddiad o dreuliau treth

| | 2019 | | |
|---|---|---|---|
| | Swm | Graddfa | Treth |
| | £' 000 | £' 000 | £'000 |
| Incwm nad oedd treth yn ddyledus arno | 27,015 | 0% | - |
| Elw ar weithgareddau nad ydynt yn rhai craidd | - | 0% | - |
| Llog | 15 | 19% | 3 |
| | | | 3 |

| | 2018 | | |
|---|---|---|---|
| | Swm | Graddfa | Treth |
| | £' 000 | £' 000 | £' 000 |
| Incwm nad oedd treth yn ddyledus arno | 26,429 | 0% | |
| Elw ar weithgareddau nad ydynt yn rhai craidd | - | 0% | |
| Llog | 8 | 19% | 2 |
| | | | 2 |

Bydd CCDG yn talu treth gorfforaethol ar log a dderbynnir ac elw ar weithgareddau nad ydynt yn rhai craidd ar gyfradd treth gorfforaethol y DU, sef 19%.

## 7. Treth Gorfforaethol – parhad

### Effeithiau treth sy'n berthnasol i effeithiau incwm cynhwysfawr arall

| | | 2019 | |
|---|---|---|---|
| | Gros | Treth | Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| (Colled) actwaraidd ar y cynllun pensiwn | (4,519) | - | (4,519) |

| | | 2018 | |
|---|---|---|---|
| | Gros | Treth | Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Enillion actwaraidd ar y cynllun pensiwn | 5,387 | - | 5,387 |

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019 - parhad

8. **EIDDO, CYFARPAR AC OFFER**

| 2018-19 | Gwelliannau Ies-ddaliad £'000 | Tir ac Adeiladau £'000 | Gosodion a Ffitiadau £'000 | Offer Cyfrifiadurol £'000 | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **COST NEU BRISIAD** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 453 | 2,470 | 62 | 238 | 3,223 |
| Ychwanegiadau: yn ystod y flwyddyn | - | - | 11 | 41 | 52 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | (47) | - | - | - | (47) |
| Amharu yn ystod y flwyddyn | - | (32) | - | - | (32) |
| Ailbrisio yn ystod y flwyddyn | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 406 | 2,438 | 73 | 279 | 3,196 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 307 | - | 28 | 154 | 489 |
| Cost am y flwyddyn | 91 | 38 | 13 | 37 | 179 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | (47) | - | - | - | (47) |
| Ailbrisio/Diffygiant: yn ystod y flwyddyn | - | - | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 351 | 38 | 41 | 191 | 621 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 55 | 2,400 | 32 | 88 | 2,575 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 146 | 2,470 | 34 | 84 | 2,734 |

Nodiadau ynglŷn â PPE:-
Ni ddelid dim asedau i'w gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn.

Gwerth llyfr gros yr asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn ac sy'n cael eu defnyddio o hyd yw £2,547.

## 8. EIDDO, CYFARPAR AC OFFER (parhad)

| 2017-18 | Gwelliannau les-ddaliad £'000 | Tir ac Adeiladau £'000 | Gosodion a Ffitiadau £'000 | Offer Cyfrifiadurol £'000 | Cyfansymiau £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **COST NEU BRISIAD** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 457 | 2,410 | 46 | 154 | 3,067 |
| Ychwanegiadau: yn ystod y flwyddyn | 13 | - | 16 | 92 | 121 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | (17) | - | - | (8) | (25) |
| Amharu yn ystod y flwyddyn | - | (2) | - | - | (2) |
| Ailbrisio yn ystod y flwyddyn | - | 62 | - | - | 62 |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 453 | 2,470 | 72 | 238 | 3,223 |
| **DIBRISIANT** | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2017 | 222 | 144 | 18 | 135 | 519 |
| Cost am y flwyddyn | 102 | 36 | 10 | 27 | 175 |
| Gwarediadau: yn ystod y flwyddyn | (17) | - | - | (8) | (25) |
| Ailbrisio/Diffygiant: yn ystod y flwyddyn | - | (180) | - | - | (180) |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 307 | - | 28 | 154 | 489 |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | 146 | 2,470 | 34 | 84 | 2,734 |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 235 | 2,266 | 28 | 19 | 2,548 |

NODIADAU YNGLŶN Â'R DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2019 - parhad

Nodiadau ynglŷn â PPE:-
Ni ddelid dim asedau i'w gwerthu ar ddiwedd y flwyddyn.
Gwerth llyfr gros yr asedau sydd wedi'u dibrisio'n llawn ac sy'n cael eu defnyddio o hyd yw £2,552.

## 9. ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | Trwyddedau Meddalwedd £'000 | Datblygu'r Wefan | | |
|---|---|---|---|---|
| **COSTAU** | | | | 1,766 |
| Ar 1 Ebrill 2018 | 766 | 2,196 | 2,962 | |
| Ychwanegiadau | 425 | | | |
| Amhariad | - | 1,341 | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | 1,191 | | (139) | (139) |
| **AMORTEIDDIAD** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2018 | | | 3,398 | |
| Tâl am y flwyddyn | | 4,589 | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | | | |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2019 | | | | |
| Ar 31 Mawrth 2018 | | | | |

## 10. SYMIAU MASNACH A SYMIAU ERAILL A DDERBYNIWYD

| | £'000 | |
|---|---|---|
| | 2019 | 2018 |
| Cyfredol: | | |
| Symiau masnach a dderbyniwyd | | |
| Symiau eraill a dderbyniwyd | | |
| Rhagdaliadau | | |

## 11. ARIAN PAROD A SYMIAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD

## 12. **CRONFEYDD WRTH GEFN**

